Gogledd Cymru Gyda'n Gilydd: Gwasanaethau Di-Dor i bobl gydag anableddau dysgu

Briff prosiect – Mehefin 2019

North Wales **Together**
Gogledd Cymru **Gyda'n Gilydd**
Seamless services for people with Learning Disabilities
Gwasanaethau ddi-dor i bobl ag Anableddau Dysgu

- Ar 14 Mehefin, lansiwyd Gogledd Cymru Gyda'n Gilydd: Gwasanaeth Di-Dor i bobl gydag anableddau dysgu yn Venue Cymru yn Llandudno.

- Daeth llawer o bobl i'r lansiad i wybod mwy am y prosiect a sut y gallan nhw gymryd rhan fel pobl gydag anableddau dysgu, eu teuluoedd, rhieni a gwarcheidwaid, sefydliadau trydydd sector a staff o iechyd a gwasanaethau cymdeithasol.

- Yn y bore, croesawyd pobl i'r lansiad gan Neil Ayling, Prif Swyddog, Cyngor Sir y Fflint, y Cynghorydd Chris Jones, aelod cabinet y Gwasanaethau Cymdeithasol yn Sir y Fflint, ac Albert Heaney o Lywodraeth Cymru.

- Gwnaeth cwmni o'r enw TAPE fideo am y prosiect. Crëwyd y fideo gan Shane sy'n wirfoddolwr gyda TAPE.
- Roedd pawb wrth eu boddau gyda'r fideo a'r prif gymeriad. Shane y Ci Defaid!

- Cawsom gyflwyniadau hefyd gan dimau'r gwasanaethau cymdeithasol o bob rhan o Ogledd Cymru a Betsi Cadwaladr. Gwnaethon nhw ddweud wrthym am y gwaith maen nhw'n ei wneud i gefnogi pobl gydag anableddau dysgu a'u teuluoedd i gael bywydau da.

- Amser cinio, diddanwyd y gwesteion gan y **Tyddyners**. Roedden nhw'n anhygoel ac roedd pawb wrth eu boddau gyda'u cerddoriaeth.

- Daeth nifer o sefydliadau i'r lansiad i ddangos i bobl y gwaith maen nhw wedi bod yn ei wneud i gefnogi pobl gydag anableddau dysgu, eu teuluoedd, a'u gofalwyr. Roedd cyfle i bobl gerdded o gwmpas a siarad efo nhw.

- Gwnaeth Lois o Scarlett Designs gofnod gweledol o'r diwrnod. Diolch Lois!

- Hoffai'r tîm prosiect ddweud Diolch yn Fawr wrth bawb a ddaeth i wneud y Lansiad yn llwyddiant aruthrol.

- Beth sy'n digwydd nesaf gyda'r prosiect?

- Dros yr haf, byddwn yn siarad efo iechyd, y gwasanaethau cymdeithasol, y sector gwirfoddol a phobl gydag anableddau dysgu, eu teuluoedd a'u gofalwyr.

- Byddwn yn gofyn i bawb beth sy'n gweithio'n dda yn eu barn nhw a sut y gallwn wella gwasanaethau fel y gall pobl gydag anableddau dysgu gyflawni'r hyn sy'n bwysig iddyn nhw.

- Ar ddiwedd yr haf, byddwn yn rhannu'r hyn rydym wedi ei ddarganfod gyda phawb a phenderfynu gyda'i gilydd, sut byddwn ni'n gwella gwasanaethau.

- Byddwn hefyd yn cynnal mwy o ddigwyddiadau'r hydref hwn.



- Bydd un digwyddiad ar gyfer gwasanaethau plant, pobl gydag anableddau dysgu, eu teuluoedd a'u gofalwyr.

- Bydd un digwyddiad ar gyfer darparwyr cymorth, pobl gydag anableddau dysgu, eu teuluoedd a'u gofalwyr.

- Rydym eisiau i bawb fod yn rhan o'r prosiect. Os ydych chi eisiau helpu gwneud gwasanaethau'n well ar gyfer pobl gydag anableddau dysgu, eu teuluoedd, a gofalwyr, cysylltwch â'r tîm.

- Gallwch anfon e-bost i ni yn Learning.disability.transformation@flintshire.gov.uk

- Efallai y byddwch eisiau gofyn i’ch teulu, gofalwr neu ffrind i'ch helpu i anfon e-bost.

- Diolch am ddarllen ein newyddlen!